

# RÔL CREFYDD YM MATERION Y BYD

## *Nodyn i'r siaradwr:*

Amlinellwch yn eglur rôl gau grefydd ym materion y byd a'r farn ddwyfol sydd i ddod i'w rhan. Cyferbyniwch hyn gyda rôl gwir Gristionogaeth, sydd wedi'i seilio ar ddysgeidiaeth ac esiampl Iesu. Terfynwch drwy dynnu sylw at y Deyrnas fel yr unig lywodraeth sydd â'r gallu i ddatrys problemau'r ddynoliaeth

## **PROFFWYDO RÔL CREFYDD YM MATERION Y BYD** (5 mun.)

Mae gwir a gau grefydd ill dwy yn chwarae rôl 'nawr: rhagfynegwyd y grefydd mae Duw yn ei chymeradwyo yn "y dyddiau diwethaf" hyn yn Eseaia 2:2-4; rhagfynegwyd y grefydd mae Duw yn ei hanghymeradwyo (a elwir "Babilon fawr") yn Datguddiad 17:1, 5

Mae pobl yn cael eu didoli yr adeg hon

Bydd y rhai sy'n troi at wir grefydd yn goroesi diwedd y gyfundrefn bresennol

Bydd pawb sy'n arfer gau grefydd ymhlith y rhai fydd yn mynd "ymaith i gosb dragwyddol" (Mth 25:41, 46)

Gellir gwahaniaethu rhwng gwir addolwyr a rhai gau wrth eu ffrwythau (Mth 7:17, 20)

## **RÔL GWIR GREFYDD: RHAID PEIDIO Â "PHERTHYN I'R BYD"** (8 mun.)

Mae cyfeillgarwch â byd Satan yn golygu bod yn elyn i Dduw (Iago 4:4)

Arferir gwir grefydd gan bobl sy'n ufudd i orchymyn Iesu i beidio ag ymwneud â materion gwleidyddol y byd (In 15:19)

Ysgrifennodd yr hanesydd Edward Gibbon ynglŷn â'r Cristionogion cynnar yn yr Ymerodraeth Rufeinig: "Roedd hi'n amhosibl i Gristionogion . . . gymryd agwedd milwyr . . . na thywysogion" (*History of Christianity*, tt. 162-3)

Gwrthododd Iesu swydd gwleidyddol, glynodd yn deyrngar wrth bregethu'r Deyrnas (In 6:15; 18:36, 37)

Ysgrifennodd yr awdur Malcolm Muggeridge: "Cychwynnodd Byd Cred gyda'r Ymerawdwr Cwstennin . . . [Ond] gallech ddweud hyd yn oed i Grist ei hun ddiddymu Byd Cred cyn iddo gychwyn drwy ddweud nad oedd ei deyrnas o'r byd hwn—un o'i osodiadau mwyaf pell-gyrhaeddol a phwysig" (*The End of Christendom*, tud. 14)

Hyfforddodd Iesu ei ganlynwyr i bregethu'r Deyrnas (Lc 10:1, 2, 8, 9)

Mae gan wir Gristionogion Iesu yn esiampl wrth bregethu'r Deyrnas a chadw'n ddifrycheulyd rhag y byd (1Pedr 2:21)

Mae pregethu'r Deyrnas yn fyd-eang gan y Tystion yn nod adnabod arall gwir grefydd (Mth 24:14)

## **RHAID I WIR GREFYDD UFUDDHAU I DDUW TRWY WEITHREDU CARIAD** (5 mun.)

Rhaid ufuddhau i'r gorchymyn i garu cymydog (Mc 12:30, 31)

Gorchynnwyd gweision Duw i beidio â chael unrhyw raniadau cenedlgarol neu hiliol yn fyd-eang (Act 10:34; 1In 4:20, 21)

Wrth ufuddhau i'r gorchymynion hyn, mae Tystion Jehofah yn cael eu 'nabod ymhellach yn rhai sydd â'r wir grefydd ganddyn' nhw (In 13:34, 35)

## **CREFYDDAU'R BYD YN METHU AG "UFUDDHAU I DDUW YN HYTRACH NAG I DDYNION"** (8 mun.)

Er bod yn rhaid i Gristionogion 'ymostwng i'r awdurdodau llywodraethol sy'n ben' a 'thalu pethau Cesar i Gesar,' rhaid iddyn' nhw hefyd 'dalw pethau Duw i Dduw' (Rhuf 13:1; Lc 20:25)

Os yw'r rhain yn gwrthdaro, rhaid ufuddhau i Dduw yn hytrach na dynion (Act 5:29)

Nid yw crefyddau'r byd hwn yn ufuddhau i Dduw yn Frenin

'Dydyn' nhw ddim yn dangos cariad; yn hytrach, maen' nhw'n cefnogi rhyfeloedd cenedlgarol a hiliol

Rhan o fyd Satan ydyn' nhw oherwydd eu hymhel nhw â gwleidyddiaeth

Paratôdd yr Ymerawdwr Rhufeinig Cwstennin y ffordd ar gyfer "theocratiaeth" ddaearol yn y bedwaredd ganrif C.C. lle'r oedd, yn ôl y cylchgrawn *Christianity Today* (Hydref 22, 1990), "yr eglwys a'r wladwriaeth yn ganghennau o'r un llywodraeth ddwyfol ar y ddaear" (Cyferbyniwch Ioan 18:36)

Dywedodd yr offeiriad Jeswitaidd Ignacio Ellacuria fod y grefydd Babyddol yn ceisio "trawsffurfio'r ddaear hon i ymdebygu gymaint ag sy'n bosib' i [Deyrnas Dduw]" (*Boston Globe*, Tach. 17, 1989)

Trodd e ac offeiriaid eraill yn Farcswyr (Eto cyferbyniwch Ioan 18:36)

Dywedodd yr ysgrifennwr Robert L. O'Connell am ryfeloedd yr 16eg a'r 17eg ganrif yn Ewrop: "Ymladdwyd y rhyfeloedd hyn . . . yn bennaf ar sail crefyddol. . . O bob peth sy'n cymell trais torfol onibai efallai am hil, gwahaniaethau crefyddol sydd fwyaf effeithiol yn tansellio teimlad o gydberthyn ymhlith y ddynoliaeth gan ganiatau i ddynion ymddwyn fel petai'r gelyn yn . . . rhywogaeth gwahanol" (*Of Arms and Men*, tud. 124)

Cyfaddefodd y clerigwr Harry E. Fosdick: "Ag un ochr o'n ceg 'rydym wedi clodfori Tywysog Tangnefedd ac â'r llall 'rydym wedi gogoneddu rhyfel" (*The Modern Use of the Bible*, tud. 204)

Yn y ganrif hon, mae arweinwyr crefyddol o bob enwad wedi cefnogi rhyfeloedd, gan annog Pabydd i ladd Pabydd, Uniongredwr i ladd Uniongredwr, Protestant i ladd Protestant

Er enghraifft, dywedodd *The New York Times* (Rhag. 29, 1966): "Cefnogodd hierarchaethau Pabyddol lleol ryfeloedd eu cenedloedd bron bob amser, gan fendithio milwyr a gweddio am fuddugoliaeth, tra bod grŵp arall o esgobion ar yr ochr arall yn gweddio am ganlyniad hollol groes"

Mae crefyddau y tu allan i Wledydd Cred hefyd yn ymhel â gwleidyddiaeth a rhyfel

Dyweddodd Nehru gwladweinydd o India: “Mae crefydd, yn India a mannau eraill, yn codi arswyd arnom” (*The Great Quotations*, tud. 522)

Mae crefyddau'r byd yn euog o waed o flaen Duw (Eseia 1:15)

Fodd bynnag, mae Tystion Jehofah wedi 'curo eu cleddyfau'n geibiau' o ddifri' (Eseia 2:4)

Yn y llyfr *More About Justifying Violence* (tud. 23), mae'r awduron yn dweud: “Mae Tystion Jehofah wedi cadw'n gyson at eu safiad 'niwtraliaeth Cristionogol' didrais”

#### **“BABILON FAWR” YDI'R ENW YN Y BEIBL AR GREFYDD BYDOL (8 mun.)**

Caiff crefydd y byd hwn (Babilon fawr) ei galw'n “butain” yn y Beibl oherwydd fe “buteiniodd,” i bob pwrpas cyd-orweddodd, gyda phob math o gyfundrefn wleidyddol (Dat 17:1, 2)

Mae hi'n ymerodraeth fyd yn yr ystyr fod “brenhiniaeth ganddi ar frenhinoedd y ddaear” oherwydd ei dylanwad drostyn' nhw (Dat 17:18)

Pam ei galw'n Fabilon fawr? (gweler *Mankind's Search for God*, tt. 368-70)

Mae Babilon fawr wedi arwain cenhedloedd i ryfeloedd a chroesgadau llofruddiol, wedi bendithio byddinoedd, wedi gweddio am fuddugoliaeth i'w cenedl neu grefydd

O'i herwydd hi, “twyllwyd yr holl genhedloedd” ac ‘ynddi hi y cafwyd gwaed y proffwydi a phawb a laddwyd ar y ddaear’ (Dat 18:23, 24)

Pam mae Babilon fawr yn gyfrifol am “bawb” a laddwyd? Oherwydd iddi ddysgu pobl i fod yn rhan o'r byd a chefnogi cenedlaetholdeb a rhyfeloedd

Mae crefydd bydol wedi'i chondemnio, oherwydd mae ei gweithiau yn atgas gan Dduw (Tit 1:16)

Yn fuan caiff hi ei llarpio, er syndod i'r byd (Dat 17:16; 18:9, 10)

Cosb gan Dduw fydd hyn oherwydd ei phechodau (Dat 18:5)

#### **UNIG OBAITH Y DDYNOLIAETH YW TEYRNAS DDUW, NID RHEOLAETH DDYNOL (6 mun.)**

Nid trwy gymysgu gwleidyddiaeth a chrefydd y ceir meddyginiaeth i broblemau'r byd, oherwydd gwneud y byd yn waeth nid yn well fu canlyniad canrifoedd o ymwneud crefydd ym mhethau'r byd

Yr unig ateb ydi Teyrnas Dduw dan awdurdod Crist (Mth 6:9, 10, 33)

'Chawn ni ddim ein siomi yn addewid y Deyrnas, gan mai un digelwyddog ydi Duw (Tit 1:2)

Mae rhagor na \_\_\_ o Dystion Jehofah mewn rhagor na \_\_\_ cynulleidfa yn fyd-eang; 'does a wnelo nhw ddim â gwleidyddiaeth ond maen' nhw'n dysgu miliynau ym mhob gwlad am obaith rhyfeddol Datguddiad 21:4, 5 (Am y rhifau diweddaraf gweler y *Blwyddlyfr* cyfredol)

#### **'NAWR YW'R AMSER I YMATEB I RYBUDD DATGUDDIAD 18:4 (5 mun.)**

Crefydd gau i gael ei dinistrio yn fuan (Dat 18:8)

Angen brys i ymateb i rybudd Duw (Dat 18:4)

Mae eto amser i ddysgu'r gwirionedd, sicrhau ffafr ddwyfol (1Tim 2:3, 4)

Yn fuan wedi diwedd gau crefydd, dryllir gweddill byd Satan yn Armagedon (Dat 19:17, 18)

Gweithredwch 'nawr a chael sail gobaith gweld diwedd y drefn ddrwg hon a chael mynediad i fyd newydd Duw (Darllen Salm 37:34)

(Glynwch yn glôs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodir ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)